# CANLLAW CWRICWLWM Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

TREES FOR CITIES

| HYDREF | GWANWYN | HAF |
|---|---|---|
| **Paentio gyda'r pridd** Cymysgwch bridd gyda dŵr a thynnu llun o olygfa o goedwig. | **Caneuon yr ardd** Ymarferwch a chrëwch rigymau a chaneuon am yr ardd, a chanu cerddoriaeth yn yr ardd gyda'r gwrthrychau y dewch o hyd iddynt. Trelis olwynion beic ayb. Gwnewch offeryn hadau. | **Jeli darganfod!** Gwnewch jeli enfawr yn llawn pethau sydd i'w gweld/sy'n tyfu yn yr ardd. Gall y plant ddarganfod pethau y tu mewn i'r jeli ac egluro beth ydyn nhw ac o ble maen nhw'n dod. Defnyddiwch ffrwythau, perlysiau a blodau bwytadwy o'r ardd. |
| **Cerflunio** Gwnewch ffenest haul o ddail gan ddefnyddio helyg, deilen a gwlân i bwytho'r dail i'w lle. Dangoswch nhw yn yr ardd. | **Artistiaid Bwyd** Gan ddefnyddio rhai o'r cnydau rydych chi wedi'u tyfu, cyflwynwch eich bwyd ar blât mewn ffordd greadigol. Gwnewch lun bwyd gyda'r bwyd! | **Paentio** Casglwch amrywiaeth o gnydau o'ch gardd, a gan ddefnyddio paent bys gwnewch lun o'ch hoff un. Eglurwch pam mai hwn yw eich ffefryn. |
| **Tynnu Llun** Ar ddiwrnod heulog, gwnewch gysgodion o'r planhigion llysiau ac yna copïo'r siapiau a welwch. | **Gerddi Bychan** Dyluniwch eich gardd berffaith eich hun, yna gan ddefnyddio toriadau bach o'r planhigion o'ch Gardd Llawn Bwyd, llenwch hambyrddau â phridd a gwneud model o'ch gardd. | **Cerflunio** Casglwch dopiau poteli plastig wedi'u hailgylchu a'u clymu at ei gilydd ar linyn i wneud sgriniau lliw, neu trowch nhw'n gerfluniau i addurno'r ardd. |
| **Celf Mwd** Archwiliwch wahanol weadau'r pridd a mwd a chreu celf mwd gan ddefnyddio'r artist/y math o gelf rydych chi'n ei astudio. | **Celf Mosaig** Gwnewch fosaig gan ddefnyddio hen deils a darnau o grochenwaith. Efallai y gallwch chi gloddio, gan ddefnyddio menig, i ddod o hyd i'r deunyddiau mewn mannau cyfagos/yn agos at welyau afonydd. Dangoswch y rhain yn eich Gardd Llawn Bwyd. | **Astudiaeth o Artist - Andy Goldsworthy**<br>Gan ddefnyddio Andy Goldsworthy fel ysbrydoliaeth, gwnewch eich darn o gelf eich hun wedi'i ysbrydoli gan fyd natur. |
| **Mosaig / teils** Crëwch ddetholiad o deils mosaig ar thema anifeiliaid a thrychfilod i addurno eich gwesty trychfilod neu fannau eistedd. | **Pwyntiliaeth** Gwnewch lun o un o'r planhigion sy'n tyfu yn eich gardd gan ddefnyddio technegau pwyntiliaeth. | **Celf Dŵr** Edrychwch ar wahanol fwcedi o ddŵr mewn amrywiaeth o gynwysyddion a chreu celf dŵr gan ddefnyddio David Hockney fel ysbrydoliaeth. |
| **Pensaernïaeth** Ymchwiliwch i adeiladau ecolegol ac yna dylunio eich sied neu dŷ gwydr ecogyfeillgar eich hun. Defnyddiwch gollage a gwahanol adnoddau naturiol yn eich dyluniad. | **Cerflunio** Gan ddefnyddio caeadau poteli wedi'u hailgylchu, gwnewch len pennau poteli wedi'u hailgylchu. | **Sialc a Golosg** Dewiswch un agwedd ar eich Gardd Llawn Bwyd a defnyddio siarcol i'w fraslunio gan arbrofi gyda graddliwio ac amrywio'r pwysau ar y papur. |
| **Cerflunio** Gwnewch gerflun gan ddefnyddio cynhyrchion wedi'u hailgylchu a'i arddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd. | **Astudiaeth o Artist – William Morris, Warhol ayb.**<br>Gwnewch boster ar gyfer eich Gardd Llawn Bwyd yn arddull un o'r artistiaid rydych chi'n eu hastudio. | **Printio Sgrin** Gan ddefnyddio stensiliau cerdyn neu bapur siwgr neu roleri inc – printiwch ar faneri bach ar linyn gan ddefnyddio delweddau wedi'u hysbrydoli gan natur a'u harddangos yn eich Gardd Llawn Bwyd. |

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust